

Datganiad Agoriadol i Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol Eryri gan y Prif Weithredwr, Mr. Emyr Williams

Emyr Williams ydw i, Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri ac mae gennyf 32 mlynedd o brofiad mewn materion sydd a wnelo rheoli tir yn Eryri. Estynnaf groeso i chi i'r archwiliad hwn o Gynllun Datblygu Lleol Eryri sydd wedi cael ei adolygu.

Dynodwyd Eryri ym 1951 fel Parc Cenedlaethol, sy'n ardal a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am ansawdd ac amrywiaeth ei thirweddau a'i morluniau ac am ein hasedau diwylliannol bywiog, sydd hefyd yn cynnwys yr iaith Gymraeg fel iaith fyw a gweithio. Mae Eryri yn hynod o gyfoethog o ran maint ac ansawdd ei fflora a'i ffawna, a'r berthynas rhwng y dirwedd, y bobl, ein cymunedau, ein treftadaeth a'r cyfleoedd y mae'r rhain yn eu darparu, sy'n cynnal ac yn gyrru cyfran sylweddol o weithgaredd economaidd yr ardal; sydd i gyd yn gysylltiedig a'i gilydd.

Pwrpasau Parc Cenedlaethol yw:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol; a
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc.

Wrth gyflawni'r pwrpasau hyn, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd hefyd i ystyried lles cymdeithasol ac economaidd ein cymunedau.

Mae Eryri yn ymestyn o Gonwy yn y gogledd i Aberdyfi yn y de ac mae'n cwmpasu ardal o 829 milltir sgwâr - sydd ychydig dros 10% o Gymru. Mae ein poblogaeth yn 25,700, ac o'r rheiny, mae 59% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg, ac mewn rhai cymunedau, mae'r ffigur mor uchel â 85%. Mae gennym dros 10 miliwn o ddiwrnodau ymwelwyr y flwyddyn gyda rhai lleoedd sy'n denu nifer uchel iawn o ymwelwyr i'r ardal. Yn ein tref farchnad fwyaf yn Eryri, poblogaeth o ddim ond 2,370 sydd yno. Amcangyfrifir bod y gwerth i economi'r ardal yn sgil rhinweddau arbennig y Parc oddeutu £134 miliwn (GYC) ac fe gefnogir oddeutu 4,459 o swyddi yn sgil yr amgylchedd.

Amlygir cyfoeth yr ardal o ran ei hamgylchedd gan faint y dynodiadau yn yr ardal: 1900 o Adeiladau Rhestredig, 372 o Henebion Cofrestredig, 15 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, 5 o Ardaloedd Arbennig a Ddiogelir, 3 Safle Ramsar, 107 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 21 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, un safle Treftadaeth y Byd UNESCO a safle Biosffer UNESCO.

Mae heriau sylweddol yn wynebu ardaloedd fel Eryri yn y blynyddoedd sydd i ddod ac mae'r heriau hyn yn dod o wahanol gyfeiriadau: newid hinsawdd, pwysedd a achosir gan niferoedd pobl, Brexit, y gallu i fasnachu a materion sydd a wnelo'r gweithlu. Rwy'n hyderus y bydd yr adolygiad hwn yn galluogi Eryri i wynebu'r heriau hyn yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae Llywodraeth Cymru, ers i Gynllun Datblygu Lleol presennol Eryri gael ei fabwysiadu, wedi cyflwyno deddfwriaeth uchelgeisiol ac yn fwyaf nodedig Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf hon ynghyd â Deddf Cynllunio 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi llunio sut y dylai pob un ystyried datblygu ac mae hyn wedi bwydo i mewn i waith yr Awdurdod hwn, gan gynnwys y CDLI diwygiedig.

Yn yr un cyfnod, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiadau o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a phwrpasau Tirweddau Dynodedig yng Nghymru. Daeth ein Gweinidog ym mis Mawrth eleni i'r casgliad ar yr adolygiadau hyn a chadarnhaodd bwysigrwydd Tirweddau Gwarchoddedig Cymru. Cadarnhaodd y Gweinidog y dylid cadw Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel Awdurdodau Lleol pwrpas arbennig ac nad oedd unrhyw achos i newid pwrpasau na dyletswyddau statudol Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Yn ystod yr adolygiad, rhoddwyd ystyriaeth i Egwyddor Sandford mewn perthynas â Pharciau Cenedlaethol. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd nad oedd achos i adolygu Egwyddor Sandford ym Mharciau Cenedlaethol Cymru.

Mae ein Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri) sy'n gynllun statudol, yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae'r adolygiad hwn yn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol diweddar yng Nghymru; mae'r Cynllun yn cael ei adolygu mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid. Bydd Cynllun y Parc yn cadw'r egwyddorion y cytunwyd arnynt a'u mabwysiadu yn y cynllun presennol, sy'n sail i'r CDLI.

Cadarnhaodd yr adroddiad adolygu a'r sylfaen dystiolaeth mai'r adolygiad ffurf fer oedd y dull gweithredu fwyaf priodol ar gyfer adolygu CDLI Eryri, a gafodd ei gytuno gyda rhanddeiliaid.

Mae ein swyddogion wedi paratoi tystiolaeth a data arwyddocaol i gefnogi'r adolygiad hwn ar ffurf fer ac rwy'n hyderus y byddwch yn derbyn yr holl wybodaeth / data / tystiolaeth sydd ei hangen arnoch i gynnal archwiliad CDLI Eryri. Mae ein swyddogion yma i roi'r gefnogaeth i chi, ym mha bynnag ffordd y gallant, yn ystod yr archwiliad hwn. Hoffwn ddiolch i bawb am y ddealltwriaeth a'r gefnogaeth wrth gyflwyno CDLI Eryri diwygiedig i chi.

Diolch.